# Pa mor effeithiol yw ymyriadau i gefnogi iechyd a lles meddyliol ac emosiynol pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)? Adolygiad Cyflym

Awst 2025

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein Hadolygiadau Cyflym (RR) yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon gan dalu sylw i duedd ar yr un pryd.

### Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn?

Awgrymwyd y cwestiwn ymchwil gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i lywio datblygiad gwasanaethau cymorth i bobl ifanc **Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)** yng ngorllewin Cymru. Y bwriad yw helpu i gefnogi cynllunio strategol a dylunio gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth pobl ifanc NEET i hybu eu lles meddyliol ac emosiynol hirdymor.

### Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae problemau iechyd meddwl ymysg pobl ifanc wedi parhau i gynyddu dros y degawd diwethaf. Mae lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth strategol allweddol i Lywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud sawl ymrwymiad i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc drwy fentrau fel y 'dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol'. Mae gwasanaethau cymorth hefyd ar gael mewn addysg uwch a llawer o weithleoedd. Fodd bynnag, er bod dulliau o gynnal neu wella iechyd meddwl a lles yn y lleoliadau hyn yn hynod werthfawr, mae'n bwysig deall pa fesurau neu ymyriadau cefnogol cymunedol amgen sy'n effeithiol i bobl ifanc nad ydynt o bosib yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hyn. Amcangyfrifir bod 13.4% o bobl ifanc (16-24 oed) yn cael eu hystyried yn NEET ledled y DU. Canfuwyd hefyd fod pobl ifanc NEET yn fwy tebygol o gael problemau iechyd meddwl na phobl ifanc nad ydynt yn NEET. O'r herwydd, nod yr adolygiad cyflym hwn yw nodi effeithiolrwydd ymyriadau i gefnogi iechyd a lles meddyliol ac emosiynol ymhlith pobl ifanc NEET.

### Canlyniadau'r Adolygiad Cyflym

*Pa mor ddiweddar yw’r sylfaen dystiolaeth*

- Cynhaliwyd y chwiliadau llenyddiaeth ym mis Mehefin 2025. Roedd yr astudiaethau a gafodd eu cynnwys wedi’u cyhoeddi rhwng 2013 a 2025.

*Maint y sylfaen dystiolaeth*

- Cafodd naw astudiaeth sylfaenol eu cynnwys yn yr adolygiad cyflym: un hap-dreial rheoledig; dwy astudiaeth reoledig heb fod ar hap, a chwe astudiaeth cyn ac ar ôl anrheoledig (yr oedd tair ohonynt yn rhai dulliau cymysg).
- Cynhaliwyd yr astudiaethau a gafodd eu cynnwys mewn ystod o wledydd (dim ond dwy a gynhaliwyd yn y DU).
- Ymchwiliodd yr astudiaethau i ymyriadau seicolegol (n=3), ymyriadau sy’n seiliedig ar natur (n=2), ymyriadau a gynorthwyir gan anifeiliaid (n=2), ymyriadau presgripsiynu cymdeithasol (n=1), ac ymyriadau hyfforddi cyfannol (n=1).
- Barnwyd bod y rhan fwyaf o'r astudiaethau o ansawdd isel ac nid oeddent yn cynnwys grŵp rheoli ar wahân. Dim ond un astudiaeth ymyrraeth seicolegol yr ystyriwyd ei bod o ansawdd gymedrol.

*Canfyddiadau allweddol a sicrwydd y dystiolaeth*

- Canfuwyd bod yr ymyriadau seicolegol yn gwella gweithrediad seicolegol, cymdeithasol a galwedigaethol, a gwnaethant arwain at newidiadau ymddygiadol cadarnhaol mewn pobl ifanc a oedd wedi encilio’n gymdeithasol. Canfuwyd hefyd eu bod yn lleihau anawsterau wrth reoleiddio emosiynau ymhlith pobl ifanc mewn perygl a oedd wedi gadael yr ysgol, ac yn lleihau trallod

seicolegol mewn pobl ifanc ddi-waith (ond effeithiwyd ar hyn gan lefelau sylfaenol y cyfranogwyr o les ac ymwybyddiaeth ofalgar).

- Canfuwyd bod yr ymyriadau sy'n seiliedig ar natur (a aseswyd mewn dwy astudiaeth yn y DU) yn gwella gweithrediad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn ogystal â chysylltiad cymdeithasol a lles meddyliol ymhlith pobl ifanc NEET. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai ymyriadau sy’n seiliedig ar natur fod yn fwy effeithiol wrth leihau iselder a gorbryder a chynyddu gwytnwch ymhlith y rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer iselder a gorbryder cyn yr ymyrraeth, o gymharu â'r rhai nad ydynt yn eu bodloni.
- Canfuwyd bod yr ymyriadau a gynorthwyir gan anifeiliaid yn gwella ymddygiad cymdeithasol a galluoedd cyfranogi mewn pobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio neu encilio’n gymdeithasol. Cafwyd canlyniadau cymysg o ran eu heffaith ar hunan-barch.
- Canfuwyd bod yr ymyriad presgripsiynu cymdeithasol yn gwella lles meddyliol a thrallod seicolegol ymhlith pobl ifanc NEET.
- Canfuwyd bod yr ymyriad hyfforddi cyfannol yn gwella ymdeimlad cyfranogwyr o les; gorbryder; mynediad at adnoddau cymorth cyfoedion; gwybodaeth am wasanaethau a mynediad iddynt; a chysylltiad â chyfleoedd dysgu a chyflog ymhlith pobl ifanc NEET. Adroddwyd canfyddiadau cymysg o ran yr ymdeimlad o gefnogaeth; y gallu i ddelio â straen; a gofyn am help pan yn ofidus neu’n teimlo bod pethau’n mynd yn drech na nhw.
- Derbyniodd y cyfranogwyr yr ymyriadau yn gadarnhaol ar y cyfan, gan dynnu sylw at ffactorau arbennig o ddefnyddiol fel y berthynas â'r rhai sy'n darparu'r ymyriad; y gefnogaeth emosiynol a chorfforol a gawsant; cael lle i rannu a thrafod emosiynau; a gallu ymgysylltu ag anifeiliaid neu natur.
- Ar y cyfan, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y gellir defnyddio ystod o ymyriadau i gefnogi pobl ifanc NEET. Fodd bynnag, mae ein hyder yn y dystiolaeth yn gyfyngedig gan mai dim ond un astudiaeth a werthusodd y rhan fwyaf o’r canlyniadau.

## Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

- Er bod y sylfaen dystiolaeth a nodwyd yn gyfyngedig o ran niferoedd ac ansawdd, gallai’r canfyddiadau helpu i lywio datblygiad a’r ddarpariaeth o ymyriadau mewn pobl ifanc NEET.
- Yn gyffredinol, cafodd yr ymyriadau eu derbyn yn gadarnhaol gan y cyfranogwyr.
- Roedd yr holl ymyriadau a nodwyd yn gofyn am lawer o adnoddau, e.e. sicrhau bod lleoliadau penodol ar gael ar gyfer yr ymyriadau natur neu’r ymyriadau a gynorthwyir gan anifeiliaid, neu’n gofyn am staff cymwys, a allai effeithio ar ddefnyddioldeb yr ymyriadau.
- Tynnodd un astudiaeth sylw at rai o'r heriau o gyflwyno ymyriad presgripsiynu cymdeithasol gan gynnwys cyllid, yr amser i gyflwyno'r ymyriadau a chynnig cymorth, a hyfforddiant addas i'r rhai sy'n cyflwyno'r ymyriad.

## Goblygiadau’r Ymchwil a Bylchau yn y Dystiolaeth

- Er bod canfyddiadau'n dangos addewid, o ystyried y sylfaen dystiolaeth gyfyngedig dylid ystyried gwerthusiad cadarn wrth ddatblygu a gweithredu ymyriad ar gyfer pobl ifanc NEET.
- Prin oedd y dystiolaeth o ansawdd uchel, yn enwedig yn y DU.
- Gallai fod gan bobl ifanc NEET anghenion gwahanol a chymhleth. Mae angen astudiaethau cadarn pellach yn asesu effeithiau hirdymor i benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi'r boblogaeth hon.

## Ystyriaethau economaidd

- Dylai gwerthusiadau economaidd yn y dyfodol sy'n asesu ymyriadau i gefnogi iechyd a lles meddyliol ac emosiynol pobl ifanc NEET ystyried effeithiau economaidd ymyriad, defnydd uniongyrchol o ofal iechyd ac effeithiau ehangach o ran mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a hwyluswyd gan y cynllun. Dylai gwerthusiadau ystyried safbwyntiau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a safbwyntiau cymdeithasol ehangach i ganfod yr holl ganlyniadau sy'n gysylltiedig ag ailgychwyn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

- Mae gan bobl ifanc NEET botensial economaidd os gallant drosglwyddo i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Gallai integreiddio un person ifanc NEET i'r gweithlu gynyddu Cynnyrch Domestig Gros (CDG) y DU gan dros £74,000 y flwyddyn*.

*ffigurau wedi'u chwyddo i brisiau 2025 gan ddefnyddio Cyfrifiannell Chwyddiant Bank of England: https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy/inflation/inflation-calculator